# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

**(Via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, O.S.Davies, J.Miller, S.Paddison, S.H.Reynolds, D.Whitelock, C.Edwards, W.F.Griffiths, H.C.Clarke a/ac N.J.E.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, J.Hodges, C.Plowman, C.Frey-Davies, D.Harding, C.Millis, M.Potts, A.Davies, G.Hargest, V.Smith, N.Aleksanyan, A.Bradshaw, M.Weaver a/ac A. Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynhorwyr A.R.Lockyer, P.D.Richards and S.Renkes |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd y bydd y Pwyllgor yn craffu ar eitemau Bwrdd y Cabinet fel y'u nodwyd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Gohirio cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 fel cofnod gwir a chywir.

## 4. OEDI WRTH DROSGLWYDDO GOFAL A PHWYSAU CYMUNEDOL

Diolchodd eu Cadeirydd i swyddogion am ddarparu'r adroddiad. Roedd yr Aelodau'n cydnabod gwaith caled staff ar bob lefel mewn gofal cymdeithasol i oedolion ac yn dymuno cydnabod eu gwaith parhaus yn y maes hwn.

O'r adroddiad, roedd yr Aelodau'n deall y gallai aelod o'r teulu, mewn amgylchiadau eithriadol, gael ei dalu drwy daliadau uniongyrchol i ofalu am y teulu. Roedd yr Aelodau am holi a oedd hyn wedi'i archwilio'n fanwl o ystyried yr amgylchiadau eithriadol rydym yn gweithredu ynddynt ar hyn o bryd. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd a bod y rhan fwyaf o daliadau uniongyrchol yn rhai ar gyfer aelodau o'r teulu a CP.

Roedd yr Aelodau'n dymuno cael cadarnhad ynghylch pwy sy'n gofalu am gleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau ac sydd yn y Lolfa Ymadael yn aros am gludiant. Cadarnhaodd swyddogion mai cyfrifoldeb staff iechyd oedd hyn.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn amlinellu'r anhawster yr oedd staff yn ei gael wrth ddod o hyd i leoliadau a phecynnau gofal i bobl â dementia. Holodd yr Aelodau beth fyddai'n digwydd o dan yr amgylchiadau lle na ellir darparu gofal o'r fath. Cadarnhaodd swyddogion ei bod yn ffodus nad oedd hyn wedi'i brofi hyd yma, ond pe bai'n digwydd byddai'n debygol o arwain at aildderbyn i'r ysbyty. Gofynnwyd i swyddogion egluro beth oedd Hwb Cydgysylltu Cymunedol Lleol ac a oedd y rhain yn gweithio. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr eitem hon yn ymwneud â chyfarfodydd amlddisgyblaethol i ystyried rhyddhau cleifion. Fodd bynnag, ni allai swyddogion ymhelaethu ymhellach gan fod yr eitem hon yn ymwneud â chanllawiau a ddarperir i awdurdodau iechyd.

Nodwyd yn yr adroddiad y dylai defnyddiwr gwasanaeth, ar ôl ei ryddhau, gael ymweliad o fewn un diwrnod i'w ryddhau i benderfynu ar ba gymorth sydd ei angen yn y gymuned a'i drefnu'n gyflym er mwyn ei roi ar waith. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn digwydd ac mae swyddogion yn rhan o gyfarfod dyddiol i drafod canlyniadau'r ymweliadau hyn.

Nododd aelodau'r adroddiad.

## 5. CRAFFU CYN PENDERFYNU

### Llythyr Terfynol a Chynllun Gweithredu ar y Cyd yn dilyn yr Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant ar draws Castell-nedd a Phort Talbot (CNPT)

Fe'i croesawyd gan y Cadeirydd ac amlinellodd nifer y pethau cadarnhaol yn yr adroddiad. Roedd y pethau cadarnhaol a amlinellwyd yn cynnwys y dull cadarnhaol a rhagweithiol o ddiogelu a hefyd yr ethos rhannu â'r trydydd sector. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y sianel trosglwyddo gwybodaeth dda sy'n llifo rhwng Barnardo's, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r staff hefyd yn adrodd ar arweinyddiaeth dda o fewn y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod Lleol yn cael ei ddisgrifio fel un blaengar ac mae'n profi ffyrdd newydd o weithio.

Mae diogelu cyd-destunol yn ymagwedd at ddeall ac ymateb i brofiadau person ifanc o niwed a risg y tu allan i'r cartref teuluol. Mae'n ehangu amcanion y system amddiffyn plant bresennol sydd wedi canolbwyntio ar niwed a risg yn y cartref. Mae diogelu cyd-destunol yn cydnabod y gall y niwed a'r risg hon ddigwydd y tu allan i'r cartref hefyd ac mae'r ymagwedd yn edrych y tu hwnt i'r rhieni.

Amlygodd yr adroddiad yr angen i wella cyd-gynhyrchu cynlluniau diogelwch gyda phobl ifanc, a gofynnodd yr aelodau i hyn gael ei egluro. Mae cynllun gweithredu cynhwysfawr wedi'i ddatblygu ac mae cynllun gweithredu penodol i edrych ar sut i ymgysylltu â phobl ifanc a rhieni cyn gynted â phosib.

Mae tudalen 26 o'r adroddiad yn beirniadu'r heddlu am eu defnydd o 'dim risg uniongyrchol amlwg (NAIRA)' ac mae hefyd yn cyfeirio at ddiffyg cyfathrebu. Gofynnodd yr Aelodau pwy sy'n gyfrifol am sicrhau yr eir i'r afael â beirniadaeth yr heddlu ac y bydd y pwyllgor yn cael gwybod am y cynnydd ar hyn.  Ymatebodd y Ditectif Brif Arolygydd Llewelyn i'r eitem. Mae NAIRA yn gategori o bobl sydd ar goll i geisio torri'r galw ac edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o ddiogelu pobl ifanc. Roedd y cynllun peilot yn Heddlu De Cymru yn llwyddiant mawr, ond mae beirniadaethau a meysydd i'w datblygu. Mae proses NAIRA ac ymateb cyffredinol i'r rheini sydd ar golli yn cael eu hystyried ar hyn o

bryd. Mae Heddlu De Cymru yn ei asesu, ac mae partneriaid academaidd sydd hefyd yn arbenigwyr yn y maes yn edrych ar sut y gellir datblygu a gwella hyn yn effeithiol.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd ystyr tactegau tarfu cyd-drefnedig gan yr heddlu. Cadarnhawyd y gellir defnyddio'r rhain i amddiffyn pobl ifanc y mae'r heddlu o'r farn y gallant fod mewn perygl o gael eu hecsbloetio a'u niweidio. Cadarnhawyd bod yr heddlu wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth nodi'r oedolion a allai achosi'r niwed neu'r camfanteisio a tharfu arno drwy eu harestio a'u galluogi i gael eu symud o'r gymuned. Mae hyn yn ei hanfod yn helpu i achosi'r aflonyddwch sydd ei angen. Mae'n bwysig bod y person ifanc yn cael cyfle i aros o fewn y gymuned lle gellir ei gefnogi.

Holodd yr Aelodau sut bydd swyddogion yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd am y diffyg tystiolaeth o weithredu ac adolygu cynlluniau diogelwch a rennir. Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r Aelodau fod yr holl gynlluniau plant yn ddogfennau byw gweithredol y mae plant, teuluoedd a phartneriaid yn ymwneud â hwy ac eu cyd-gynhyrchu ganddynt hefyd. Fodd bynnag, cadarnhaodd swyddogion y byddant yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd fel blaenoriaeth.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw gynlluniau i gynnal yr un math o adolygiad â'r gwasanaethau i oedolion, yn enwedig y rheini nad oes ganddynt alluedd neu sydd â dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol. Dywedodd swyddogion fod yr arolygiad yn gynllun peilot a gynhaliwyd ym maes amddiffyn plant. Nid yw swyddogion yn ymwybodol ar hyn o bryd o unrhyw gynlluniau i ehangu hyn i'r gwasanaethau i oedolion.

Canmolodd yr Aelodau a'r swyddogion yr ymagwedd ar y cyd at weithio rhwng y gwahanol sefydliadau ac asiantaethau sy'n ymwneud â gofal plant.

Nododd yr Aelodau yr hyfforddiant y mae staff wedi'i gael ar draws y gwahanol adrannau a sefydliadau i helpu i adnabod pobl sy'n agored i niwed. Holodd yr Aelodau'n benodol a oedd staff y ganolfan alwadau wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar yr eitem hon. Cadarnhaodd swyddogion fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cyfarfod a thrafod diogelu cyd-destunol. Y cam nesaf yn awr yw cyflwyno'r hyfforddiant ar draws y gwahanol adrannau yn yr awdurdod lleol. Cadarnhaodd swyddogion fod perthynas waith dda â'r awdurdod tân i ddarparu cymorth a rhannu gwybodaeth yn ôl y gofyn.

Diolchwyd i'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu gwaith a'u hymdrechion parhaus o fewn y Gwasanaethau Plant.

Nododd swyddogion, er bod yr adroddiad a gyflwynwyd yn syml ac yn hawdd ei ddeall, fod y gwaith a aeth i mewn i'r adroddiad a'r arolygiad wedi digwydd ar anterth y pandemig. Croesawyd pum arolygiaeth wahanol i'r Gwasanaethau Plant i gynnal yr arolygiad. Arolygiad peilot oedd hwn ac nid oedd wedi'i gynnal gan y pum arolygiaeth wahanol ar y cyd.

Pwysleisiodd swyddogion Addysg bwysigrwydd hyfforddiant mewn perthynas â diogelu. Hefyd, pa mor dda y mae Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn cydweithio fel tîm, gyda'r plant neu'r teulu'n ganolog i'r penderfyniad sy'n mynd i gael ei wneud.
Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

**Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 (Ebrill 2021 – Medi 2021)**

Tynnodd y Cadeirydd sylw at nifer o bethau cadarnhaol yn yr adroddiad. Roedd nifer yr asesiadau plant a gwblhawyd ar amser yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, nid oes unrhyw gwynion wedi'u cadarnhau a bu cynnydd yn nifer y canmoliaethau mewn perthynas â'r gwasanaethau plant. Bu cynnydd hefyd yn y gweithgareddau cyfranogi ac ymgysylltu â phobl ifanc. Nodwyd hefyd mai CNPT sydd â'r fframwaith cyntaf sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghymru a bod hyn yn mynd i gael ei gyflwyno'n genedlaethol.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod 101 o bobl yn aros am asesiad gofal. Holodd yr Aelodau am y cyfathrebu a gynhelir gyda'r cleient wrth iddo aros am yr asesiad gan y byddai hyn yn cael effaith ar y trydydd sector. Cadarnhaodd swyddogion fod nifer o agweddau mewn perthynas â hyn. Ar hyn o bryd mae CNPT yn treialu system drwy grŵp ymgynghori allanol. System ymateb negeseuon testun ydyw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion ynghylch eu hatgyfeiriad. Mae'n dechrau o'r pwynt cyswllt pan fo swyddogion yn derbyn yr alwad ffôn gychwynnol. Mae'r cynllun peilot yn ei ail gam ar hyn o bryd. Mae'r adborth cyffredinol hyd yma wedi bod yn gadarnhaol. Holodd yr Aelodau sut yr eir ati i gyfathrebu â'r rheini nad oes ganddynt ffonau symudol. Cadarnhawyd lle nad oes unrhyw ddull cyfathrebu o'r fath, y gwneir ymweliadau a galwadau ffôn fel y bo'n briodol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Prif Swyddog bellach wedi'i benodi ar gyfer Datblygiad Cymunedol Ymyriad Cynnar felly bydd yn dod â'r holl wasanaethau atal yn y gwasanaethau i oedolion ynghyd. Mae strwythur yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i dynnu hyn at ei gilydd. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r pwyllgor. Mae'n rhan o gam 2 ailfodelu'r gwasanaethau i oedolion.

Holodd yr Aelodau am y swyddi gwaith cymdeithasol gwag. Ar hyn o bryd mae diffyg o 25% mewn gweithwyr cymdeithasol ar draws pob tîm yn y gwasanaethau i oedolion a chyflogir un gweithiwr asiantaeth ar hyn o bryd.

Mae swyddogion yn darparu diweddariad ynghylch am y sefyllfa gyda'r gwasanaethau i blant.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

**Gweithredu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Darparu Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Gwasanaethau Byw â Chymorth Iechyd Meddwl yng Nghastell-nedd Port Talbot**

Aeth y Cadeirydd drwy'r pethau cadarnhaol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Eglurodd yr Aelodau fod yr eitemau coch yn welliannau mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd yr adroddiad yn nodi sylwadau teuluoedd mewn perthynas ag eiriolaeth, datgelu camarfer a chynnal a chadw eiddo. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod yr eitemau hyn yn cael eu hystyried yn briodol. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn cael eu hystyried.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

6. **BLAENRAGLEN WAITH**

I nodi er gwybodaeth.

7. **EITEMAU BRYS**

Codwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr fel eitem frys. Mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd ynghylch derbyn yr adroddiad llai na 48 awr cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, penderfynodd yr Aelodau beidio â chraffu ar yr eitem. Os yw'r Aelodau am godi unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad, dylid eu hanfon yn uniongyrchol at y Cyfarwyddwr gyda holl Aelodau eraill y Pwyllgor Craffu'n cael eu copïo i'r e-bost.

## 8. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Penderfynu gwahardd y cyhoedd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

## 9. RHEOLIADAU GWASANAETHAU RHEOLEIDDIEDIG (DARPARWYR GWASANAETHAU AC UNIGOLION CYFRIFOL) (CYMRU) 2017 A DIWEDDARIAD AR GARTREFI DIOGEL I BLANT HILLSIDE (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 13)

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad diweddaru ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a Chartref Diogel i Blant Hillside.

Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

**CADEIRYDD**